PRIFYSGOL BANGOR / BANGOR UNIVERSITY

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

# ADRODDIAD BLYNYDDOL SAFONAU'R GYMRAEG

## Awst 2022 – Gorffennaf 2023

# ADRODDIAD BLYNYDDOL SAFONAU'R GYMRAEG PRIFYSGOL BANGOR

## RHAGYMADRODD

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn ar weithrediad y Safonau Iaith Gymraeg ym Mhrifysgol Bangor yn cyfeirio at y cyfnod rhwng 1 Awst 2022 a 31 Gorffennaf 2023.

Mae'r adroddiad yn amlinellu'r camau y mae'r Brifysgol wedi'u rhoi yn eu lle er mwyn sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r Safonau Iaith ac yn tynnu sylw at rai llwyddiannau penodol ac amcanion datblygu ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae copi o Hysbysiad Cydymffurfio Prifysgol Bangor ar ein gwefan.

## DATBLYGU'R GYMRAEG DRWY GYFNOD O ADFER A DATBLYGU ARFERION DEFNYDD IAITH

Roedd 2022 – 23 yn flwyddyn o newid o safbwynt arweinyddiaeth y Brifysgol. Penodwyr Yr Athro Edmund Burke yn Is-ganghellor a chafwyd uwch benodiadau newydd eraill hefyd. Braf yw nodi fod pob un o'r unigolion hyn yn derbyn gwersi Cymraeg.

Roedd y cyfnod dan sylw yn un lle roedd y Brifysgol yn ail ymgyfarwyddo â chael staff a myfyrwyr ar y campws yn rheolaidd a gyda chynnull digwyddiadau gyda phartneriaid a'r cyhoedd yn y cnawd unwaith eto. Drwy hyn, daeth cyfleoedd cynyddol i ddefnyddio'r Gymraeg wyneb yn wyneb ac i gynnal rhagor o sgyrsiau anffurfiol ac ad-hoc drwy'r Gymraeg.

Roedd peth pryder yn ystod cyfnod covid fod y lleihad yn y cyfleoedd anffurfiol i ddefnyddio'r iaith wedi peri i rai cydweithwyr golli'r arfer o glywed y Gymraeg yn ddyddiol ac felly golli hyder i'w defnyddio. I'r cydweithwyr hynny a benodwyd yn ystod cyfnod covid, ac a oedd yn anghyfarwydd â chyd-destun gwaith dwyieithog cyn iddynt ymuno â Phrifysgol Bangor, roedd llai o gyfle wedi bod yn sgil y pandemig iddynt ymgyfarwyddo â dwyieithrwydd y tu hwnt i gyfieithu Teams a Zoom. Dros y flwyddyn dan sylw felly, mae'r Brifysgol wedi bod yn rhagweithiol yn adfer defnydd dydd i ddydd o'r Gymraeg a sicrhau lle canolog iddi wrth i'r drefn o gyfarfod a digwyddiadau yn y cnawd ail-gydio. Sicrhawyd hefyd ein bod yn parhau i ddatblygu lle'r Gymraeg o fewn y cyd-destun rhithiol sydd mor ganolog i fyd gwaith ac astudio erbyn hyn.

Arwydd o fwriad y Brifysgol i sicrhau capasiti staffio digonol i gefnogi defnydd o'r Gymraeg ar draws y sefydliad oedd penodiad Swyddog Datblygu a Hyrwyddo'r Gymraeg ym mis Mai 2023. Mae'r rôl hon yn cefnogi'r Brifysgol i weithredu'r Safonau Iaith, cynorthwyo gydag elfennau megis hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith, datblygu prosiectau newydd i brif-ffrydio'r Gymraeg a chodi hyder i'w defnyddio, a thrwy hynny, gyfrannu at ymdrechion i ddatblygu capasiti ac ethos dwyieithog y sefydliad.

Yn 21/22 roedd 43% o staff yn nodi eu bod yn siarad Cymraeg. Yn 22/23, mae canran y staff sy’n nodi eu bod yn siarad Cymraeg wedi parhau’n gyson (43%). Gwelwyd cynnydd yng nghanran y staff sy’n nodi eu bod yn dysgu Cymraeg ac mae hynny’n gadarnhaol o safbwynt sicrhau bod pawb ar draws y sefydliad yn cyfrannu at greu ethos dwyieithog ac adfer a datblygu’r arfer o ddefnyddio’r Gymraeg.

## SAFONAU CYFLENWI GWASANAETH

Mae Prifysgol Bangor yn hyderus ei bod wedi perfformio'n dda wrth gydymffurfio â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau. Ers dyddiau ein Cynllun Iaith rydym wedi, er enghraifft, sicrhau bod:

- staff sy'n siarad Cymraeg yn gweithio mewn derbynfeydd;
- holl ystod ein gwasanaethau ar gael i fyfyrwyr yn Gymraeg;
- arwyddion yn ddwyieithog;
- cyfle i fyfyrwyr a phartneriaid ddefnyddio'r Gymraeg wrth gyflwyno ceisiadau am arian neu wrth dendro i gynnig gwasanaeth.

Wrth ystyried y datblygiadau a'r gweithgareddau neilltuol a gafwyd wrth gyflawni gwasanaethau Cymraeg yn ystod 2022-23 i fyfyrwyr a darpar fyfyrwyr, tynnir sylw at y datblygiadau isod.

- Ail-gyflwynwyd Serendipedd fel digwyddiad 'yn y cnawd' ym mis Medi 2022. Ffair glybiau a chymdeithasau Undeb y Myfyrwyr yw Serendipedd, sy'n cael ei chynnal ar gyfer myfyrwyr (a myfyrwyr newydd yn bennaf) fel rhan o weithgareddau'r Wythnos Groeso. Mae gan gyrff allanol bresenoldeb yn y digwyddiad hefyd, yn ogystal â rhai o adrannau gwasanaeth y Brifysgol. Roedd gan Canolfan Bedwyr stondin yno a bu'n gyfle euraid i gyflwyno holl ystod y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg i fyfyrwyr a rhoi gwybod am wasanaethau dwyieithog y Brifysgol. Bu'n gyfle hefyd i hyrwyddo'r cwrs dysgu Cymraeg hunan astudio ar lefel Mynediad yn benodol. Ychwanegwyd gwybodaeth am y cwrs newydd hwn ym Mhecynnau Croeso myfyrwyr preswyl yn ogystal. O ganlyniad, cafwyd 120 o gofrestriadau arno yn ystod 2022-23.

- Yn yr un modd, ail-sefydlwyd stondin Astudio Drwy'r Gymraeg yn y Dyddiau Agored yn 2022-23. Mae'n fodd hynod effeithiol o rannu gwybodaeth am yr ystod o wasanaethau, ysgoloriaethau a chyfleoedd astudio cyfrwng Cymraeg a dwyieithog sydd ar gael i fyfyrwyr y Brifysgol, yn ogystal â bod yn gyfle i ddarpar-fyfyrwyr ymgysylltu â staff y gwasanaethau proffesiynol, Swyddog Cangen y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a staff academaidd cyfrwng Cymraeg y Brifysgol.

- Cynhaliodd y Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd raglen o apwyntiadau Cyngor Gyrfaol un i un yn ystod y flwyddyn a chafwyd 22 digwyddiad cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog ar gyfer grwpiau mwy yn ystod y flwyddyn. Cynhaliwyd 17 o ddigwyddiadau cyfrwng Cymraeg (ar-lein ac ar y campws) gydag ysgolion academaidd penodol, gyda chyfanswm o 129 o fyfyrwyr wedi mynychu'r digwyddiadau hynny.

- Yn yr un modd, darparwyd 10 sesiwn Gymraeg neu ddwyieithog ar themâu amrywiol gan y Tîm Cefnogi ac Addysgu yn 2022-23, gyda 177 myfyriwr wedi mynychu'r sesiynau hynny.

- Un o'r datblygiadau ar gyfer 2022-23 gan y tîm Gwasanaethau Digidol oedd creu un templed dwyieithog ar gyfer cynnwys pob modiwl o fewn Blackboard. Golyga hyn fod cynllun cyson i bob modiwl a bod pob myfyriwr ar draws y Brifysgol yn cael eu cyflwyno i benawdau dwyieithog i'r ffolderi o fewn eu cyrsiau. Mae defnyddio templedi fel hyn yn sicrhau fod y cyrsiau'n fwy hygyrch. Fel rhan o'r templed, mae adnoddau cefnogol i staff ar gael yn y

Gymraeg a’r Saesneg i’w cynorthwyo wrth baratoi a datblygu eu safleoedd Blackboard. Mae yma hefyd adnoddau cefnogol dwyieithog i fyfyrwyr, i’w cynorthwyo yn eu hastudiaethau. Mae’r templed yn addasu o ran maint yn effeithiol ar gyfer dyfeisiadau symudol, gan olygu bod gofynion hygyrchedd yn cael eu bodloni wrth ddatblygu’r deunyddiau dwyieithog hyn.

Wrth ystyried ymwneud y Brifysgol â’r gymuned yn ehangach, tynnir sylw yn benodol at yr isod:

- Mae’r Brifysgol wedi sefydlu Bwrdd Cymunedol. Cynhelir y cyfarfodydd yn ddwyieithog gyda chymorth cyfieithu ar y pryd, boed y cyfarfod yn cael ei gynnal yn y Brifysgol neu tu allan iddi.  Sicrhawyd cynrychiolaeth o fudiadau sydd â golwg benodol ar hyrwyddo’r Gymraeg ac mae Menter Iaith Môn a Menter Iaith Bangor yn aelodau o’r Bwrdd.

- Yn 2022/23, gweinyddwyd Cronfa Gymunedol y Brifysgol am y tro cyntaf. Bwriad y gronfa yw hwyluso’r cydweithio rhwng staff a phartneriaid allanol. Cefnogwyd 11 prosiect yn 2022/23, gyda’r Gymraeg yn amlwg ymhlith y prosiectau hynny:

    - Gwaith Cymdeithasol: Cynhyrchu pedwar podlediad yn trafod gofal cymdeithasol a llesiant yng Nghymru, pwysigrwydd gofal dwyieithog, a sut mae cwrs Gwaith Cymdeithasol MA y Brifysgol yn helpu a chefnogi elusennau lleol, cynghorau ac asiantaethau trydydd sector.
    - Ysgol Gwyddorau Addysgol a Gwasanaeth Cyflogadwyedd: Ymarferiad cwmpasu a chyfres o ymgynghoriadau cymunedol i ddatblygu achos busnes dros bresenoldeb ar y Stryd Fawr yng Nghanol Dinas Bangor, yn gweithio gyda rhanddeiliaid lleol, plant a phobl ifanc. Cynhaliwyd digwyddiad gyda phlant ysgol gogledd Cymru i drafod iechyd meddwl a llesiant yn mis Tachwedd 2023.
    - Cydlynodd canolfan Dyslecsia Miles y Brifysgol gefnogaeth arbenigol ar gyfer prosiect dwyieithog Llais Dyslecsia i godi ymwybyddiaeth am ddyslecsia gyda staff, myfyrwyr a’r cyhoedd. Roedd yr ymdrech hon yn cynnwys cydweithio rhwng y ganolfan, Llenyddiaeth Cymru, Casi Wyn (Bardd Plant Cymru), ac artistiaid lleol.

Mae’r Brifysgol yn parhau’n rhagweithiol wrth sicrhau trafodaethau blaengar ac amserol ar y Gymraeg a Chymreictod. Yn y cyd-destun hwnnw, gellir tynnu sylw at ddwy gyfres seminar:

- Ar gyfer Mis Hanes LHDTC+, cynhaliwyd cynhadledd Y Ddraig Amryliw a oedd yn archwilio'r berthynas rhwng Cymru, y Cymry a'r Gymraeg a hanes a hunaniaethau cwiyr. Roedd y sgyrsiau'n amrywiol gyda sylw'n cael ei roi i lên plant, terminoleg a chynwysoldeb, dehongliadau cwiyr o weithiau creadigol cyfoes a’r dulliau o chwilio archifau i ganfod yr hanesion cudd hyn. Mynychodd 57 o bobl y gynhadledd rithiol hon.
- Rhwng mis Hydref 2022 a mis Awst 2023, cafwyd cyfres o sgyrsiau misol yn edrych ar ba mor amlweddog yw'r hyn a olygir wrth 'Gymreictod'. Dechreuodd y gyfres gyda'r awdur, yr athro a'r cyflwynydd Natalie Jones yn trafod ei DNA a'i Chymreictod, cyn i olygyddion y gyfrol *Welsh [Plural]* drafod y gyfrol ym mis Tachwedd. Joseph Gnagbo a roddodd y sgwrs ar gyfer mis Rhagfyr ac roedd ei stori eithriadol iawn yn un a ddenodd gryn sylw yn y wasg yng nghyd-destun y gyfres yma. Yn 2023, trafodwyd crefydd a Chymreictod gyda phobl fel Kristoffer Hughes a Laura Jones, chwaraeon a Chymreictod gyda Laura McAllister a Lloyd Lewis, a rhan yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Gymru heddiw.

## CAMAU DATBLYGU

- Monitro defnydd o'r pecyn hyfforddi mandadol newydd ar y Polisi Iaith a sicrhau ei fod yn parhau'n ymatebol o safbwynt datblygiadau mewn dulliau cyflwyno gwasanaethau.
- Sicrhau bod myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg yn cymryd rhan weithredol mewn cynllunio digwyddiadau sydd yn eu hannog i weld gwerth eu sgiliau iaith.
- Parhau i sicrhau bod y Gymraeg yn ganolog wrth i'r Brifysgol ymgysylltu â'i chymuned y tu hwnt i furiau'r Brifysgol ei hun.

## SAFONAU LLUNIO POLISI

Mae Prifysgol Bangor yn hyderus ei bod wedi perfformio'n dda wrth gydymffurfio â'r Safonau Llunio Polisi. Mae strwythurau cadarn yn eu lle ar gyfer sicrhau bod materion ynglŷn â'r Gymraeg yn cael ystyriaeth wrth i bolisïau a mentrau newydd gael eu datblygu. Y mae unigolion a chanddynt gyfrifoldeb dros y Gymraeg yn eistedd ar bwyllgorau allweddol y Brifysgol lle mae penderfyniadau polisi perthnasol yn cael eu trafod (e.e. Pwyllgor Gweithredu'r Brifysgol, Pwyllgor Cenhadaeth Ddinesig, Grŵp Cydymffurfio).

Yn ystod 2022-23, diweddarwyd a diwygiwyd y Polisi Iaith. Mae'r diweddariadau yn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried mewn datblygiadau newydd sydd yn cynnwys:

- systemau newydd (e.e. y system rheoli cwricwlwm newydd Worktribe)
- llwyfannau a systemau dysgu digidol
- llunio fideos dwyieithog fel dulliau cyfathrebu
- cyfarfodydd yn y cnawd, ar-lein a chyfarfodydd hybrid

Yn unol â'r arweiniad sy'n cael ei gynnig gan Gomisiynydd y Gymraeg, ehangwyd yr adran yn y polisi sy'n sicrhau bod y Brifysgol yn cydymffurfio â'r Safonau Llunio Polisi. Addaswyd y polisi i sicrhau bod cymalau penodol ynddo yn cyfeirio at ddyfarnu grantiau a'r angen i ystyried effeithiau posib ar y Gymraeg a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Lluniwyd canllawiau er mwyn rhoi arweiniad i gydweithwyr ar faterion ymarferol i'w hystyried wrth asesu effaith. Mae diriaethu'r broses asesu effaith yng nghyd-destun y Gymraeg yn gam pwysig o ran cynorthwyo staff ar draws y sefydliad i ddod yn fwy cyfarwydd a hyderus i wneud hyn yn eu cyd-destun gwaith eu hunain. Yn ein Polisi Iaith hefyd, ychwanegwyd geiriad er mwyn ei gwneud hi'n glir bod 'polisi' yn cwmpasu strategaethau ac ail-drefnu strwythurau. Gweithredwyd ar hyn pan gynhaliodd y Brifysgol ymarfer ail-drefnu yn 2023 i symud cartref academaidd rhai ysgolion a phynciau. Sicrhawyd bod y ddogfen ymgynghori yn gofyn am effaith posib y newidiadau hyn ar y Gymraeg a chwblhawyd asesiad effaith ar y Gymraeg yn nghyd-destun y newidiadau ar gyfer y Pwyllgor Gweithredu.

Yn ystod 2022-23, adolygodd y Brifysgol ei rhaglen o hyfforddiant mandadol i staff. Sicrhawyd bod hyfforddiant ar y Gymraeg a gweithrediad y Safonau Iaith yn un o'r cyrsiau y mae disgwyl i staff ei gwblhau. Datblygwyd pecyn hyfforddiant ar-lein newydd ar y Gymraeg i'r diben hwn.

Ym mis Gorffennaf 2023, derbyniodd y Brifysgol gymeradwyaeth derfynol ar gyfer sefydlu Ysgol Feddygol. Mae hwn yn ddatblygiad arwyddocaol o ran cynyddu nifer y meddygon sydd â sgiliau Cymraeg. Bydd egwyddorion craidd y Safon Iaith yn ystyriaeth yn natblygiad yr Ysgol Feddygol.

## CAMAU DATBLYGU

Bydd y Brifysgol yn parhau i sicrhau fod ein polisïau a'n datblygiadau newydd yn gwarchod egwyddorion craidd y Safonau – sicrhau cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Yn sgil seminarau diweddar gan Gomisiynydd y Gymraeg byddwn yn edrych ar ddatblygu hyfforddiant pellach ym maes y Safonau Polisi.

## SAFONAU GWEITHREDU

Mae Prifysgol Bangor yn hyderus ei bod wedi perfformio'n dda wrth gydymffurfio â'r Safonau Gweithredu. Mae hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith wedi bod yn flaenoriaeth i Brifysgol Bangor ers sawl blwyddyn. Fel y nodir yn y rhagarweiniad, wrth ddychwelyd i sefyllfa waith lle mae nifer cynyddol o gyfarfodydd a digwyddiadau yn y cnawd, mae'r Brifysgol yn awyddus i adfer hyder rhai staff i ddefnyddio'r Gymraeg.

Yn y cyfnod dan sylw, parhaodd y Brifysgol i sicrhau bod modd i staff barhau i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith a derbyn negeseuon clir fod y Brifysgol yn annog hynny. Tynnir sylw at rai datblygiadau perthnasol isod:

- Yn 2022/23 roedd 138 o staff yn dysgu Cymraeg. Mae cynnal y niferoedd sy'n dysgu ar y lefel hon yn dangos bod awydd cryf yn parhau ymhlith staff i ddatblygu eu sgiliau ac i gyfrannu tuag at sicrhau fod Bangor yn Brifysgol wirioneddol ddwyieithog. Mae hyn yn unol â'n amcanion strategol wrth i ni gymryd camau ymarferol, llwyddiannus a chynhwysol tuag at lunio'r gweithle dwyieithog hwnnw.
- O ran y ddarpariaeth dysgu Cymraeg i staff, mae ein data yn dangos bod staff yn llwyddo i wneud cynnydd a symud ymlaen i ddarpariaeth ar lefel uwch. Mae cynllun Tystysgrif Cymraeg Gwaith a ddatblygwyd gan ein Tiwtor Staff yn cynnig cyfle i asesu cyrhaeddiad staff a'u helpu i fagu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith o ddydd i ddydd, ar lafar ac yn ysgrifenedig.
- Yn ystod 2022/23 fe gymerodd 4 o ddarlithwyr ran yn y cynllun Cymraeg Gwaith+. Ar ôl 10 mis, roedd y pedwar wedi datblygu eu sgiliau i lefel hyfedredd, oedd yn eu galluogi i ddefnyddio'r Gymraeg yn hyderus gyda myfyrwyr oedd y dilyn rhannau o'u modiwlau trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Nifer o staff a gyrhaeddodd lefelau 1-7 yn 2022/23:
  - Lefel 1 / Dechreuwyr 34
  - Lefel 2 Mynediad 26
  - Lefel 3 Sylfaen 15
  - Lefel 4 Canolradd 20
  - Lefel 5 a 6 Uwch 29
  - Lefel 7 Hyfedredd 14

- Yng nghyd-destun y Lefelau a chynnydd staff, mae'n drawiadol bod 46% o'n dysgwyr ar lefel Canolradd ac thu hwnt. Mae'n anghyffredin iawn llwyddo i gynnal datblygiad iaith ar hyd y lefelau yn y modd hwn ac mae'n tystio i effeithiolrwydd y dysgu Cymraeg i staff.
- Braf oedd gallu dathlu'r llwyddiant hwn mewn digwyddiad i gyflwyno tystysgrifau dysgu Cymraeg i staff yn y cnawd. Cafwyd ffocws ar y rhai sydd wedi dysgu Cymraeg yn ein digwyddiad Gŵyl Ddewi yn ogystal. Cafwyd cyflwyniad gan y Dirprwy i'r Is-ganghellor sydd ei hun wedi dysgu Cymraeg ac wedi cyhoeddi llyfr 'Dwdls Cymraeg' i gynorthwyo dysgwyr i ddeall a chofio geirfa Gymraeg.

Mae'r tablau isod yn amlinellu sgiliau Cymraeg staff y Brifysgol ar 31 Gorffennaf 2023 yn seiliedig ar gategorïau swyddi:

**HOLL STAFF Y BRIFYSGOL: SGILIAU SIARAD CYMRAEG**

| | Siarad Cymraeg | Ddim yn Siarad Cymraeg | Siarad Ychydig o Gymraeg | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **Academaidd** | **224** | **272** | **189** | **685** |
| | **33%** | **40%** | **28%** | **100%** |
| **Academaidd Cysylltiedig** | **143** | **42** | **100** | **285** |
| | **50%** | **15%** | **35%** | **100%** |
| **Clerigol** | **251** | **54** | **92** | **397** |
| | **63%** | **14%** | **23%** | **100%** |
| **Maniwal** | **111** | **68** | **53** | **232** |
| | **48%** | **29%** | **23%** | **100%** |
| **Technegol** | **50** | **22** | **41** | **113** |
| | **44%** | **19%** | **36%** | **100%** |
| **Ymchwil** | **45** | **106** | **52** | **203** |
| | **22%** | **52%** | **26%** | **100%** |
| **Cyfanswm** | **824** | **564** | **527** | **1915** |
| | **43%** | **29%** | **28%** | **100%** |

**HOLL STAFF Y BRIFYSGOL: SGILIAU DARLLEN CYMRAEG**

| | Darllen Cymraeg | Ddim yn Darllen Cymraeg | Darllen Ychydig o Gymraeg | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **Academaidd** | **225** | **291** | **172** | **688** |
| | **33%** | **42%** | **25%** | **100%** |
| **Academaidd Cysylltiedig** | **145** | **46** | **96** | **287** |
| | **51%** | **16%** | **33%** | **100%** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Clerigol** | **251** | **62** | **92** | **405** |
| | **64%** | **14%** | **22%** | **100%** |
| **Maniwal** | **104** | **70** | **53** | **227** |
| | **46%** | **31%** | **23%** | **100%** |
| **Technegol** | **52** | **27** | **41** | **120** |
| | **43%** | **23%** | **34%** | **100%** |
| **Ymchwil** | **46** | **107** | **54** | **207** |
| | **22%** | **53%** | **26%** | **100%** |
| **Cyfanswm** | **823** | **603** | **508** | **1934** |
| | **43%** | **31%** | **26%** | **100%** |

**HOLL STAFF Y BRIFYSGOL: SGILIAU YSGRIFENNU CYMRAEG**

| | **Ysgrifennu Cymraeg** | **Ddim yn ysgrifennu Cymraeg** | **Ysgrifennu ychydig o Gymraeg** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| **Academaidd** | **211** | **319** | **148** | **678** |
| | **31%** | **47%** | **22%** | **100%** |
| **Academaidd Cysylltiedig** | **132** | **70** | **85** | **287** |
| | **46%** | **24%** | **30%** | **100%** |
| **Clerigol** | **236** | **72** | **96** | **404** |
| | **58%** | **18%** | **24%** | **100%** |
| **Maniwal** | **91** | **85** | **46** | **222** |
| | **41%** | **38%** | **21%** | **100%** |
| **Technegol** | **48** | **39** | **32** | **119** |
| | **40%** | **33%** | **27%** | **100%** |
| **Ymchwil** | **44** | **119** | **41** | **204** |
| | **22%** | **58%** | **20%** | **100%** |
| **Cyfanswm** | **762** | **704** | **448** | **1914** |
| | **40%** | **37%** | **23%** | **100%** |

## CYRSIAU DATBLYGU DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG

Mae Tîm Datblygu Staff y Brifysgol yn dîm dwyieithog ac felly yn gallu cynnig pob cwrs a ddatblygir yn fewnol drwy gyfrwng y Gymraeg; felly hefyd y tîm Iechyd a Diogelwch a'r tîm Technoleg Gwybodaeth. Mae'n anodd cofnodi'r union niferoedd / canrannau o staff a dderbyniodd hyfforddiant proffesiynol drwy'r Gymraeg gan fod llawer o'r hyfforddiant hwnnw'n cael ei gynnig yn ddwyieithog.

Ail-gyflwynwyd yr arfer o gynnal sesiynau cynefino staff newydd ar y campws yn ystod y flwyddyn. Er bod staff newydd wedi derbyn cyflwyniadau ar y Polisi Iaith fel rhan o'r gweithgareddau cynefino rhithiol a fu ar waith o ganlyniad i'r pandemig, roedd dychwelyd i drefn yn y cnawd yn fodd o bwysleisio elfennau mwy ymarferol gweithio mewn sefydliad dwyieithog – megis cyfieithu ar y pryd a llif naturiol cyfarfodydd a chyflwyniadau dwyieithog.

Mae Gweithio Deinamig wedi parhau yn ystod y cyfnod 2022-23, ac mae rhai cyrsiau wedi parhau i fod ar-lein ond ailgyflwynwyd rhai sesiynau yn y cnawd hefyd. Erbyn hyn mae 40 rheolwr wedi cwblhau'r Rhaglen Rheoli Bangor ac mae 25 pellach yn y broses o'i gwblhau. Mae modd i staff sy'n dilyn y cyrsiau hyn ddewis mynychu gweithdai cyfrwng Cymraeg ac mae grŵp dysgu gweithredol cyfrwng Cymraeg penodol wedi'i sefydlu, sydd yn rhoi gofod anffurfiol a chyfrinachol i reolwyr drafod ar lafar ymysg ei gilydd. Yn ogystal mae'r rheolwyr yn cael dewis derbyn adborth y prawf seicometrig Myers Briggs yn y Gymraeg. Mae'r gweithdy 'Rheoli mewn Amgylchedd Dwyieithog' yn darparu cyd-destun hanesyddol a chyfoes y Gymraeg, y cyd-destun statudol presennol a'r camau y dylai rheolwyr eu cymryd er mwyn cefnogi eu staff i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'r gweithdy yn cael ei gynnal yn y Gymraeg a'r Saesneg ac yn rhan greiddiol o Rhaglen Rheoli Bangor.

Yn ystod 2022/23 cyflwynwyd y gweithdai staff canlynol drwy gyfrwng y Gymraeg:

- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth i Reolwyr
- Ymwybyddiaeth Hunan-Laddiad
- Hyfforddiant Adolygu Perfformiad i Adolygwyr
- Cwrs Cynllunio Blackboard
- Dethol a Dewis
- Deall Eich Hunain ac Eraill
- Cymryd Cofnodion
- Rheoli mewn Amgylchedd Ddwyieithog

Cofrestrodd 97 aelod staff ar weithdai cyfrwng Cymraeg yn ystod y cyfnod dan sylw, gyda'r cyfleoedd i fynychu'r cyrsiau hyn yn cael eu rhannu mewn sawl fforwm fewnol a thrwy'r Bwletin Staff.

## GOFYNION IAITH SWYDDI A SGILIAU SIARAD CYMRAEG Y RHAI A GAFODD EU PENODI IDDYNT

| CATEGORI SWYDD | GOFYN IAITH | Siarad Cymraeg | Siarad ychydig | Dim yn siarad Cymraeg | Dim gwybodaeth |
|---|---|---|---|---|---|
| **Academaidd** | Hanfodol | 17 | | | |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% |
| **Academaidd Cysylltiedig** | Hanfodol | 7 | | | |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% |
| **Clerigol** | Hanfodol | 17 | 3 | 1 | 1 |
| | | 77% | 14% | 5% | 5% |
| **Maniwal** | Hanfodol | 1 | | | |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% |
| **Technegol** | Hanfodol | 2 | | | 1 |
| | | 67% | 0% | 0% | 33% |
| **Ymchwil** | Hanfodol | 2 | 2 | | |
| | | 50% | 50% | 0% | 0% |
| | | | | | |
| **Academaidd** | Dymunol | 5 | 20 | 15 | 4 |
| | | 11% | 45% | 34% | 9% |
| **Academaidd Cysylltiedig** | Dymunol | 2 | 4 | 10 | 2 |
| | | 11% | 22% | 56% | 11% |
| **Clerigol** | Dymunol | 9 | 8 | 8 | 1 |
| | | 35% | 31% | 31% | 4% |
| **Maniwal** | Dymunol | 4 | 3 | | |
| | | 57% | 43% | 0% | 0% |
| **Technegol** | Dymunol | 7 | 14 | 7 | 1 |
| | | 24% | 48% | 24% | 3% |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ymchwil** | Dymunol | 12 | 3 | 15 | |
| | | 40% | 10% | 50% | 0% |
| | | | | | |
| **Academaidd** | Dim gofyn iaith penodol | | 2 | 2 | |
| | | 0% | 50% | 50% | 0% |
| **Ymchwil** | Dim gofyn iaith penodol | 2 | 5 | 22 | |
| | | 7% | 17% | 76% | 0% |
| **Cyfanswm** | | 87 | 64 | 80 | 10 |
| | | 36% | 27% | 33% | 4% |

## CAMAU DATBLYGU

O safbwynt sicrhau bod staff yn datblygu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith, bydd cyfres o ymyriadau yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau cyfle i ddatblygu sgiliau siarad ac ysgrifennu. Byddwn hefyd yn monitro yr hyfforddiant mandadol ar y Polisi Iaith.

## CWYNION

Derbyniwyd un gwyn ffurfiol o dan y Safonau Cyflenwi Gwasanaethau.

## CASGLIADAU

Wrth i batrymau addysgu, dysgu a gweithio sefydlogi, bu'r flwyddyn dan sylw yn un lle cafwyd cyfle i ail-afael mewn arferion defnyddio'r Gymraeg, gan gyplysu hynny â'r datblygiadau newydd rhithiol sydd wedi eu cyflwyno dros y blynyddoedd diwethaf. Wrth wneud hynny, llwyddwyd i sicrhau bod y Brifysgol yn parhau i fod yn flaengar yn ei hymwneud â'r Gymraeg. Wrth edrych ymlaen i 2023-24, mae sawl cyfle ar y gorwel i weithio drwy gynlluniau traws-sefydliadol a chydag adrannau a thimau penodol i barhau i godi hyder i ddefnyddio'r Gymraeg a datblygu gwasanaethau blaengar gyda'r Gymraeg yn ganolog iddynt.

Os hoffech dderbyn gwybodaeth bellach am yr adroddiad hwn, cysylltwch â:

Dr Rhodri Evans
Swyddog Datblygu a Hyrwyddo'r Gymraeg
Canolfan Bedwyr
Prifysgol Bangor
r.l.evans@bangor.ac.uk
(01248) 382525